CYNGOR CYMUNED BETWS

2009 07 Gorffennaf Cofnodion

Cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor Cymuned yn Festri Capel Newydd, Y Betws ar ddydd Mercher yr 8fed o Orffennaf 2009 am 7.00 yr hwyr.

YN BRESENNOL: Cynghorwr Betsan Jones (Cadeiryddes), Henadur Arnallt James, Y Cynghorwyr Carwyn James, Anthony Richards, Maldwyn John, Richard Howell, Annette Price, Loreen Lewis, June Gunter, Anne Sizmur a Menna Roberts.

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwr Catherine Smith, y Cynghorwr Sir Audrey Jones, PC Kevin Jones a PCSO Sharee Treharne.

DATGANIADAU GAN AELODAU AM FUDDIANNAU ARIANNOL A RHAI HEB FOD YN ARIANNOL.
NODWYD ni wneuthur datganiad gan aelodau am Fuddiannau Ariannol a rhai heb fod yn Ariannol.

Croesawodd y Gadeiryddes y Cynghorwr Menna Roberts yn nol i'r Cyngor Cymuned oherwydd mae hi wedi bod yn sâl.
Dywedodd y Cynghorwr June Gunter wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi danfon carden pen-blwydd at gwr bonheddig o Annwyl Fan oherwydd roedd yn dathlu ei ben-blwydd yn 100 mlwydd oed.

1. DARLLEN AC YSTYRIED COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR YR 10fed o FEHEFIN 2009.
Roedd y Cynghorwr Richard Howell am ychwanegu bydd y fainc sydd wedi cael ei gymryd i ffwrdd ar Heol Y Cyrnol yn mynd i gael ei ailosod gan y Cyngor Cymuned.
Roedd y Cynghorwr Annette Price am ychwanegu taw hi oedd wedi gofyn i Gynghorwr Sir Audrey Jones ynglyn â Chlybiau Cinio canolddydd ac nid y Cynghorwr Anne Sizmur.
Hefyd roedd y Cynghorwr Annette Price am ychwanegu, os fydd tua 4-6 preswylwyr o Heol Maescware yn dod ati gilydd ac yn siwio'r Cyngor Sir am iawndal a achoswyd gan lifogydd ar hyd Heol Maescware, fydd hyn yn costi mwy nag £200,000.
Cadarnhaodd y Cynghorwr Annette Price ac eiliodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod cofnodion cyfarfod y 10fed o Fehefin 2009 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Gadeiryddes.

2. DARLLEN AC YSTYRIED COFNODION Y CYFARFOD ARBENNIG A GYNHALIWYD AR YR 24ain O FEHEFIN 2009.
Cadarnhaodd y Cynghorwr Anne Sizmur ac eiliodd y Cynghorwr Anthony Richards fod cofnodion y cyfarfod arbennig ar y 24ain o Fehefin 2009 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Gadeiryddes.

3. MATERION YN CODI (Cyfarfod Misol).
3.1 Tir ger Heol Y Felin, Betws.
Fe ddywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr bod cyfarfod wedi cael ei drefnu gyda'r Cyfreithiwr ar ddydd llun y 17eg o Orffennaf 2009 am 4 o'r gloch. NODWYD y Cynghorwyr y pwynt uchod.

3.2 Bwrdd Hysbysu'r Cyngor Cymuned.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr bod y bwrdd hysbysu'r Cyngor Cymuned yn barod i gael ei gasglu gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r Cyngor Sir hefyd yn mynd i roi'r bwrdd hysbysu i fyny ar ran y Cyngor Cymuned. NODWYD y Cynghorwyr y pwynt uchod.

3.3 Rhodd - Ysgol Gynradd y Betws.
Dywedodd y Cynghorwr Anthony Richards wrth y Cynghorwyr ei fod ef wedi cyflwyno erthygl i bapur newydd y Guardian ynglin a'r rhodd mae'r Cyngor Cymuned wedi rhoi i Ysgol Gynradd y Betws. NODWYD y Cynghorwyr y pwynt uchod.

3.4 Meinciau am Heol Pentwyn a Treforis.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi archebu meinciau ychwanegol (un am Heol Pentwyn ac un am Treforis). Hyd yn hyn nid yw hi wedi derbyn cadarnhad wrth Gerwyn Thomas fod y meinciau wedi cael ei dosbarthu. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn erlid y mater hwn.

3.5 Golau Solar am Barc y Betws - Gardd Synhwyro a Choffa.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr fydd hi'n trefnu cyfarfod gyda 'Sunset Solar'.
NODWYD y Cynghorwyr y pwynt uchod.

3.6 Goleuadau Tymhorol/Croeso am Gymuned y Betws.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr fydd hi'n trefnu cyfarfod gyda 'Sunset Solar'.
NODWYD y Cynghorwyr y pwynt uchod.

3.7 Cyfarfod Diogelwch Y Briffordd.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr nid yw hi wedi derbyn adroddiad hyd yn hyn wrth Mr McEvoy ynglyn â'u hymweliad diweddar I Fetws. Dywedodd y Cynghorwr June Gunter fod Mr McEvoy wedi dweud ei fod ef yn mynd i wneud ymweliad arall yn ei dro. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at Mr McEvoy i weld os yw ef wedi gwneud ei ail ymweliad o Fetws.

Darllenodd y Clerc llythyr i'r Cynghorwyr sydd wedi cael ei ddanfon at Mr McEvoy gan breswylydd o Heol y Cyrnol ynglyn â rheolaeth traffig o fewn Betws. Hefyd darllenodd y Clerc ymateb a ddanfonwyd i'r preswylydd o Heol y Cyrnol gan Mr McEvoy. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn edrych mewn i'r gost o archebu arwyddion fflachio actifadu cerbydau.

3.8 Bocsys Blodau'r Cyngor Cymuned.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn cadarnhad wrth Mr Lewis ac yn anffodus nid oes ganddo ddiddordeb mewn cynnal a chadw'r bocsys blodau ar ran y Cyngor Cymuned. Awgrymodd y Cynghorwr Betsan Jones fod hysbyseb yn cael ei rhoi mewn i bapur newyddion y Guardian, fe eiliodd y Cynghorwr Carwyn James. Mae bocsys blodau'r Cyngor Cymuned ar Heol Y Felin, Heol Maescware, Stryd y Parc/Heol y Cyrnol ac Treforis. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Cynghorwr Anthony Richards yn rhoi hysbyseb ym mhapur newydd y Guardian. Awgrymodd y Cynghorwr Annette Price fod y Gwasanaeth Cymuned Ieuenctid yn glanhau'r bocsys dros dro. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Cynghorwr Annette Price yn gwneud ymholiadau gyda Gwasanaeth Cymuned Ieuenctid.

3.9 Llwybr Troed.
Dywedodd y Cynghorwr Arnallt James fod llwybr troed 3/14 dal wedi ei rhwystro. Mae Cynghorwr Arnallt James wedi ffonio Cyngor Sir Caerfyrddin ynglyn â chynnal a chadw'r llwybrau troed ac fe ddywedwyd delai'r mater hyn gael ei chyfeirio at ei Gynghorwr Sir leol. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn erlid y mater hwn gyda Mr Eirian James o Gyngor Sir Caerfyrddin am gyfarfod gydag Is Bwyllgor Llwybrau Troed y Cyngor Cymuned.

3.10 Tir y tu cefn i'r Aradr ac Oged.
Dywedodd y Cynghorwr Maldwyn John fod rhywun yn clirio'r tir tu cefn i'r Aradr ac Oged. Mae'n pryderu oherwydd mae'r rwbel yn cwympo mewn i'r afon. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin i ofyn a gallant ymchwilio'r mater.

4. MATERION YN CODI (Cyfarfod Arbennig).
Cadarnheuodd y Clerc ei bod hi wedi danfon llythyr at Jayne Davidson. Darllenodd y Gadeiryddes y llythyr i'r Cynghorwyr.

Dywedodd y Cynghorwr Anthony Richards fod Dr J D Evans wedi cael ei wahodd i'r Cyfarfod Arbennig, ond delai'r Cynghorwr Sir bresennol Audrey Jones hefyd wëid cael ei wahodd. Awgrymodd y Cynghorwr Anthony Richard fod llythyr yn cael ei ddanfon at Gynghorwr Sir Audrey Jones i ofyn a yw hi am neu yn erbyn y Tyrbinau Gwynt, ei meddyliau ar yr adroddiad a hefyd os oedd ganddi unrhyw newidiadau i wneud i'r adroddiad ymchwiliad 6 diwrnod. Awgrymodd y Cynghorwr Betsan Jones ac eiliodd y Cynghorwr Maldwyn John for y Cyngor Cymuned yn trefnu cyfarfod gyda'r Cynghorwr Sir Audrey Jones. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn trefnu cyfarfod gyda'r Cynghorwr Sir Audrey Jones.

Awgrymodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod y Clerc yn ysgrifennu at ECO2 i ddweud wrthynt fod y Cyngor Cymuned am ddanfon cynrychiolydd i gyfarfod ganddynt. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at ECO2.

5. GOHEBIAETH.
5.1 Cydnabuwyd a nodwyd y canlynol.
•Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru - Cylchgrawn 'Yr Ardd' rhoddwyd i Gynghorwyr June Gunter ac Arnallt James.
•Ombwdsman – Adroddiad Blynyddol 2008/09.
•Cyngor Sir Caerfyrddin – Cynaladwyedd Drafft Tai Strategaeth – rhoddwyd i Gynghorwr Richard Howell.
•Gwasanaethau Gwirfoddol Cymdeithas Sir Gar – Cyfarfod Rhwydwaith.
•Un Llais I Gymru – Rhaglen Hyfforddiant Cenedlaethol i Gynghorau Cymuned - PENDERFYNWYD y Cynghorwyr i roi hyn ar yr agenda am y Cyfarfod ym mis Medi.
•Foothold – Partneriaeth Rhwydwaith Gwyrdd Rhydaman.

6. MATERION CYNLLUNIO.
6.1 Nid oes gan Gyngor Cymuned y Betws unrhyw wrthwynebiad ynglyn â'r cais isod:-
E/21329 - Estyniad porth a darpariaeth o ystafell gemau i'r llawr cyntaf uwchben y garej ger 68 Heol y Cyrnol, Betws (9-2009/10).

6.2 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi rhoi caniataid i'r cais cynllunio canlynol:-
E/20248 - Datblygiad Preswyl, Gwaith Glo Hen Fetws, Rhydaman (16-2008/09).

7. CYFRIFON.
7.1 Taliadau.
1.Capel Newydd (5x Cyfarfodydd) £50.00
2.Rhodd- Partneriaeth Hen Bobl Sir Gaerfyrddin £100.00
3.Rhodd – Home Start £100.00
4.Rhodd – Band Arian Dref Rhydaman £150.00
5.Rhodd – Shelter Cymru £100.00 Cyfanswm £500.00
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr i dalu'r biliau uchod.

7.2 Trysorau Coffa.
Fe ddangosodd y Clerc catalog o drysorau coffa i'r Cynghorwyr. Awgrymodd y Cynghorwr June Gunter ac eiliodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod hyn yn cael ei drafod gan yr Is Bwyllgor Ariannol ac wedyn yn cael ei benderfynu yn y Brîf Gyfarfod ym mis Medi.

8. ADRODDIAD HEDDLU DYFED POWYS.
Nid oeddynt yn bresennol.

9. ADRODDIAD Y CYNGHORWR SIR.
Nid oedd y Cynghorwr Sir yn bresennol yn y Cyfarfod.

PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn danfon llythyr at y Cynghorwr Sir Audrey Jones ynglyn ar ganlynol:-
•Dywedodd y Cynghorwr Anthony Richards fod eisiau symud yr arwydd amod pwysau ar Heol y Mynydd. Gall y Cynghorwr Sir cysylltu gyda Chyngor Sir Caerfyrddin i weld os gall yr arwyddion cael eu symud pellach lawr Heol y Mynydd.
•Roedd y Cynghorwr Annette Price am wybod os yw'r Cynghorwr Sir wedi derbyn ymateb wrth y Gwasanaeth Ambiwlans ynglyn â galwad ffôn 999 blwyddyn ddiwethaf lle'r oedd ymateb araf wrth y Gwasanaeth Ambiwlans.
•Hefyd roedd y Cynghorwr Anthony Richards am wybodaeth ddiweddar wrth y Cynghorwr Sir ynglyn â fowlio cwn ac os oes llythyron wedi cael ei ddanfon i berchenogion cwn.

10. ADRODDIADAU.
10.1 Cyngor Sir Caerfyrddin – Rhestr Dymuniad Cynllunio.
Fe ddarparodd y Cynghorwr Anne Sizmur adroddiad cyflawn i'r Cynghorwyr ar Restr Dymuniad Cynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin. Fe ddiolchodd y Cynghorwyr y Cynghorwr Anne Sizmur am ei hadroddiad manwl.

10.2 Gradd Cadwraeth.
Awgrymodd y Cynghorwr Annette Price fod gradd cadwraeth yn cael ei osod ar yr adeilad bric Fictoriad, yr hen weithdy ger Ty Coch ar Heol Maescware, Betws. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin.

10.3 Canolfan Gynghori.
Fe ddiweddarodd y Cynghorwr Annette Price'r Cynghorwyr ar achos llys y Ganolfan Gynghori. NODWYD y Cynghorwyr y pwynt uchod.

10.4 Cyfarfod Un Llais i Gymru.
Fe ddiweddarodd y Cynghorwr Carwyn James y Cynghorwyr ynglyn â Chyfarfod diweddar Un Llais I Gymru a fu'n bresennol gyda Chynghorwr Anne Sizmur. NODWYD y Cynghorwyr y pwynt uchod.

11. UNRHYW FATER ARALL.
11.1 Parc Betws.
Adroddodd y Cynghorwr Betsan Jones nid oes blodau yn y pamau blodau ym Mharc y Betws, hefyd roedd hi'n siomedig ar gyflwr y parc. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin.

11.2 Lle Chwarae Heol Y Felin.
Dywedodd y Cynghorwr Richard Howell fod gwydr ar lawr Lle Chwarae ar Heol Y Felin. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin.

11.3 Trip Siopa.
Gofynnodd y Cynghorwr Anthony Richard os gall y Cyngor Cymuned drefnu trip siopa i'r Gymuned, a bod y Cyngor Cymuned yn talu am y bws. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr i roi hyn ar agenda Cyfarfod mis Medi.

11.4 Treforis.
Dywedodd y Cynghorwr Loreen Lewis ei bod hi wedi derbyn cwynion wrth nifer o breswylwyr o Treforis ynglyn â chyflwr y stad. Mae yna tau gyda cheir sgrap tu allan i'r tau. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin.

Gorffennodd y Cyfarfod at 9.35 yr hwyr.